# Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Gymraeg

# 2024 - 2025

## Cynnwys:

**Tudalen:**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | 4 |
| Safonau Llunio Polisi | 7 |
| Safonau Gweithredu | 8 |
| Safonau Cadw Cofnodion | 10 |
| Gweithrediadau'r Uned y Gymraeg ar gyfer 2024/25 | 13 |

- Gwasanaethau Cyfieithu
- Peilot Cof Cyfieithu
- Prosiect Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (GOCC)
- Adolygiad Protocol Cwynion a Phryderon
- Hyfforddiant Trin Galwadau yn y Gymraeg i Staff
- Adolygiad Asesiad Effaith y Gymraeg
- Adolygiad o Brotocol Defnydd Mewnol y Gymraeg a PCGC Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg.
- Asesiadau Sgiliau Iaith Cymraeg ar gyfer Swyddi Newydd a Gwag
- Allgymorth ac Ymgysylltu

| | |
|---|---|
| Cymorth i Sefydliadau GIG Cymru | 18 |
| Casgliad | 19 |

## Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn ar y Gymraeg yn amlinellu cyflawniadau allweddol yn ystod 2024-2025 o ran darparu ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a pherfformiad yn unol â Safonau'r Gymraeg (rhif 7) 2018 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i fonitro ein cydymffurfedd â safonau'r Gymraeg yn ofalus, wedi adolygu prosesau a phrotocolau i hwyluso gwelliannau pellach ac wedi archwilio atebion arloesol i gefnogi sefydliadau eraill y GIG gyda gwasanaethau cyfieithu i'w cynorthwyo gyda chydymffurfedd a darparu gwasanaethau Cymraeg i gleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae Safonau'r Gymraeg (rhif 7) 2018 yn parhau i fod yn rhan o'n cynllunio gwasanaethau, yn ogystal â blaenoriaethau'r Strategaeth Mwy na Geiriau ar gyfer 2022 – 2027, a lansiwyd ym mis Medi 2022. Mae safonau a strategaethau yn parhau i fod wrth wraidd ein cynllunio a'n meincnodi ar gyfer y dyfodol. Mae darparu gwasanaethau Cymraeg hefyd yn rhan annatod o'n cynllun tymor canolig integredig, gan fynd i'r afael â gofynion gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau yn y tymor byr, canolig a hir.

## Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1 – 64)

Rydym yn monitro ein cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg yn barhaus mewn proses gylchol. Rydym yn cyhoeddi offeryn hunanasesu i bob adran a maes gwasanaeth mewn un flwyddyn, gyda'r flwyddyn ganlynol yn flwyddyn i fynd i'r afael â materion sy'n codi o'r hunanasesiad. Ochr yn ochr â'r offeryn hunanasesu, mae cyfarwyddwyr, dirprwy gyfarwyddwyr, penaethiaid gwasanaethau a rheolwyr yn defnyddio'r hysbysiad cydymffurfio a'r cod ymarfer i'w cynorthwyo i bennu lefel y cydymffurfedd â phob set o safonau a chefnogi eu hasesiad drwy ddarparu tystiolaeth o gydymffurfedd.

Mae'r offeryn hunanasesu hefyd yn darparu sail ar gyfer sgyrsiau i sefydlu a gweithredu cynlluniau gwella lleol. Mae'r asesiadau'n rhoi gwybod i ni ble mae angen rhagor o gefnogaeth i gryfhau'r cynnig gwasanaeth yn ogystal â rhoi'r cyfle inni rannu arfer gorau ar draws y sefydliad.

Dyma oedd canlyniad cyffredinol yr Hunanasesiad ar gyfer y safonau darparu gwasanaethau ar gyfer 2024/25:

| **Set o Safonau** | **Lefel cydymffurfedd 2023/24** | **Lefel cydymffurfedd 2024/25** |
|---|---|---|
| Gohebiaeth (1, 4, 5, 6, 7) | Lefel ganolig o gydymffurfedd | Lefel ganolig o gydymffurfedd |
| Prif rif gwasanaethau ffôn/canolfannau cyswllt (8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16) | Lefel ganolig o gydymffurfedd | Lefel ganolig o gydymffurfedd |
| Rhifau uniongyrchol gwasanaethau ffôn (16, 17, 18, 19) | Lefel isel i ganolig o gydymffurfedd | Lefel ganolig o gydymffurfedd |
| Systemau ffôn awtomataidd (20) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Cyfarfodydd (21, 22, 22A, 22CH) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Cyfarfodydd Cyhoeddus (26, 27, 28, 29) | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Arddangos deunydd ysgrifenedig mewn cyfarfodydd cyhoeddus (30) | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Digwyddiad Cyhoeddus (31, 32, 33, 34) | Lefel ganolig i uchel o gydymffurfedd | Lefel ganolig i uchel o gydymffurfedd |
| Ffurflenni i'w llenwi gan unigolion (36) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Dogfennau sydd ar gael i unigolion (37) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Dogfennau a Ffurflenni (38) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Gwefannau (39, 40, 41, 42, 43) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel ganolig o gydymffurfedd |
| Apiau (sydd yn cael eu defnyddio ar ddyfeisiau electronig) (44) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfryngau cymdeithasol (45, 46) | Lefel ganolig i uchel o gydymffurfedd | Lefel ganolig o gydymffurfedd |
| Arwyddion mewn mannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd (47, 48, 49) | Lefel ganolig i uchel o gydymffurfedd | Lefel ganolig i uchel o gydymffurfedd |
| Gwasanaethau derbynfa (50, 52, 53) | Lefel ganolig o gydymffurfedd | Lefel ganolig o gydymffurfedd |
| Ceisiadau a dogfennau ar gyfer grantiau (54, 55, 56) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Gwahoddiadau i Dendro (57, 58, 59) | Lefel isel i ganolig o gydymffurfedd | Lefel isel i ganolig o gydymffurfedd |
| Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg (60-61) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Hunaniaeth Gorfforaethol (62) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Systemau Annerch Cyhoeddus (64) | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

Arhosodd y rhan fwyaf o'r safonau'r un fath â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, roedd rhai amrywiadau bach. Dyma ddadansoddiad o'r amrywiadau ar gyfer 2024/25 o'u cymharu â 2023/24:

- **Rhifau uniongyrchol gwasanaethau ffôn (16, 17, 18, 19)**
  O archwiliadau siopwyr cudd o rifau ffôn sy'n berthnasol i'r safonau hyn, bu cynnydd yn ymwybyddiaeth staff i ateb galwadau ffôn drwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Gwefannau (39, 40, 41, 42, 43)**
  Cynhaliwyd archwiliad cynhwysfawr o'n gwefan a'n tudalennau ym mis Chwefror 2025. Gwelsom ostyngiad bach mewn cydymffurfedd ar rai o'n tudalennau gwe. Er bod tudalennau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, nodwyd y problemau canlynol ar ychydig o dudalennau:
  - daethpwyd o hyd i ddogfennau ar y wefan nad oeddent wedi cael eu hasesu i fod ar gael yn y Gymraeg,
  - dim ond yn Saesneg yr oedd fideos a lanlwythwyd ar ychydig o dudalennau ar gael.
  - Dim ond i dudalennau Saesneg yr oedd dolenni i dudalennau gwe eraill yn GIG Cymru neu sefydliadau cyhoeddus eraill yn arwain, er bod tudalennau Cymraeg y gellid cysylltu â nhw.

  Mae'r mater wedi'i gyfleu i'r timau perthnasol i fynd i'r afael â'r materion hyn a'u cywiro fel darn o waith i'w wneud yn ystod chwarteri 1 a 2 o 2025/26.

- **Y Cyfryngau Cymdeithasol**
  Nodwyd problemau tebyg ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Yn bennaf dim ond yn Saesneg y crëwyd fideos. Yr amserlen i fynd i'r afael â hyn fydd rhan gyntaf 2025/26 hefyd.

Rydym yn adolygu ein protocolau sydd ar gael i bob aelod o staff a gyflogir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn flynyddol i sicrhau bod ein protocolau a'n prosesau yn gyraeddadwy ar draws pob maes darparu gwasanaeth. Mae pob protocol ar gael ar ein tudalen gymorth iaith Gymraeg fewnol.

Hyrwyddwn ein bod yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ar ein gwefannau ac mewn e-byst a phenawdau llythyrau corfforaethol.

Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd bellach yn cael eu cynnal ar lwyfannau rhithwir, fel Microsoft TEAMS a ZOOM.
Mae gennym brotocol ynglŷn â sut y gellir hwyluso cyfarfodydd yn y ddwy iaith ac mae Uned y Gymraeg yn cefnogi pob isadran a maes cyflenwi gwasanaethau i ddod o hyd i gyfieithwyr ar y pryd yn ôl yr angen.

Fel sefydliad, nid ydym yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus lle gwahoddir y cyhoedd i gymryd rhan neu i siarad, felly, rydym yn ystyried nad yw'r safonau hyn yn berthnasol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod agendâu a chofnodion Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan.

Nid yw'r rhan fwyaf o'n digwyddiadau yn rhai cyhoeddus. Fodd bynnag, pan fydd digwyddiad yn cael ei drefnu, mae gennym brotocol a rhestr wirio yn eu lle ar gyfer trefnwyr digwyddiadau i sicrhau eu bod yn ystyried ac yn darparu ar gyfer y Gymraeg wrth gynllunio digwyddiadau.

Mae holl Ffurflenni a Dogfennau PCGC y bwriedir eu defnyddio gan unigolion ar gael yn Gymraeg, boed yn gopïau caled neu'n gopïau digidol. Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn bwysig i ni roi cyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio'r adnoddau i staff sy'n rheoli'r gwaith o weinyddu a dosbarthu dogfennau a ffurflenni.

Mae ein postiadau cyfryngau cymdeithasol wedi'u cynllunio ymlaen llaw ac mae cymorth cyfieithu ar gael i gefnogi ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol, os oes angen, cyn unrhyw ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n cael eu hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn ateb negeseuon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg yn Gymraeg os oes angen ateb. Rydym wedi nodi bod angen i staff sy'n gyfrifol am gyfrifon cyfryngau cymdeithasol gynnal asesiad risg i reoli nifer o risgiau posibl, gan gynnwys gallu nodi a oes angen ymateb i sylw ar bost yn y Gymraeg a gallu gwneud hyn yn brydlon ac o fewn yr un amserlenni ag ymateb i sylwadau yn Saesneg.

Derbyniwyd un cais am Wahoddiad i Dendro i'w gyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2024/25. Derbyniwyd 5 cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ymateb i'r gwahoddiad i dendro a gyhoeddwyd yn y Gymraeg. Cyhoeddwyd dogfennau ymateb yn y Gymraeg fel sy'n ofynnol gan Safonau 57, 58 a 59.

Rydym yn darparu hyfforddiant i staff caffael i gynghori Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i asesu a oes angen cyhoeddi gwahoddiad i dendro drwy gyfrwng y Gymraeg. Anogir staff comisiynu i weithio gyda'u harweinwyr y Gymraeg i ymgynghori â safonau a chod ymarfer y Gymraeg wrth greu manyleb ar gyfer contractwyr trydydd parti i ddarparu gwasanaethau ar ran Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau.

Rydym wedi nodi’r angen i greu asesiad i benderfynu a oes angen cyhoeddi dogfennau tendr caffael yn y Gymraeg a’r Saesneg, ac i annog staff comisiynu i ymgynghori â’u hysbysiad cydymffurfio â safonau’r Gymraeg. Dechreuwyd y gwaith hwn ddiwedd 2024/25 a bydd yn parhau dros y blynyddoedd nesaf oherwydd maint y gweithrediadau caffael. Rydym yn disgwyl gweld gwelliant yn y tymor canolig i'r tymor hir.

**Ymchwiliad i Wasanaethau Ffôn – CS1040 Tachwedd 2023 i Ionawr 2025.**
Mae'r gwaith i unioni'r pryderon a godwyd yn ymchwiliad CS1040 bellach wedi dod i ben. Mae rhywfaint o waith yn parhau i fod i'w gwblhau, ond rydym wedi dechrau mapio proses i asesu swyddi newydd a gwag a byddwn yn treialu hyn gyda charfan fach o adrannau yn PCGC cyn ei lansio yn ddiweddarach yn 2025/26.

Pryd bynnag y bydd swydd sy'n gyfrifol am ateb galwadau ar ein prif rif ffôn yn wag, bydd y rôl bob amser yn cael ei hysbysebu fel Cymraeg Hanfodol ar lefel 3+ mewn siarad, deall, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg, sef lefel ganolradd. Rydym yn cyfeirio darpar ymgeiswyr at y wefan Dysgu Cymraeg, fel y gallant wirio eu sgiliau cyn gwneud cais.

Rydym yn gosod cyd-destun fel bod darpar ymgeisydd yn deall beth yw ein gofynion. Caiff sgiliau eu hasesu mewn cyfweliadau ac ymarferion asesu.

## Safonau Llunio Polisi (Safonau 69 – 77)

Pryd bynnag y bydd angen i ni ddatblygu neu adolygu penderfyniad polisi PCGC lleol, caiff y Gymraeg ei hystyried mewn penderfyniadau polisi.

Yn dilyn y seminar a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd 2023, ac yn dilyn gweithdy a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2025, fe wnaethom ddechrau adolygu ein prosesau blaenorol. Mae gennym ni bellach offeryn Asesu Effaith ar y Gymraeg mwy cadarn i benderfynu a fydd gan Newid Protocol/Polisi Sefydliadol effaith gadarnhaol, niwtral neu negyddol ar y Gymraeg. Bydd awduron, isadrannau a gwasanaethau yn cael eu herio i ddod o hyd i atebion i gynnal effaith gadarnhaol neu i wella effaith er mwyn newid cadarnhaol.

| Set o Safonau | Lefel cydymffurfedd 2023/24 | Lefel cydymffurfedd |
|---|---|---|
| Safonau 69 i 77 | Lefel isel o gydymffurfedd | Lefel ganolig o gydymffurfedd |

Fe wnaethom adolygu a diweddaru ein polisi pryderon a chwynion yn ystod 2024/25. Mae canllawiau clir i bob aelod o staff ynghylch sut y dylid rheoli hyn os derbynnir pryder neu gŵyn gyffredinol drwy gyfrwng y Gymraeg. Os derbyniwn gŵyn am wasanaethau Cymraeg, bydd Pennaeth Gwasanaethau’r Gymraeg a Chydymffurfedd yn arwain yr ymchwiliad i ddod o hyd i gasgliadau a gwneud argymhellion i'w gweithredu.

## Safonau Gweithredu (Safonau 79 – 114)

Fel rhan o'r broses hunanasesu fe wnaethom hefyd gynnwys y safonau gweithredu. Mae canlyniadau'r hunanasesu ar gyfer y Safonau Gweithredu fel a ganlyn:

| Set o Safonau | Lefel cydymffurfedd 2023/24 | Lefel cydymffurfedd 2024/25 |
|---|---|---|
| Polisi'r Gymraeg – Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol (79) | Lefel ganolig o gydymffurfedd | Lefel ganolig o gydymffurfedd |
| Cytundeb Cyflogaeth (80) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Dogfennau yn ymwneud â chyflogi gweithwyr (81) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Polisïau yn ymwneud â chyflogaeth a'r gweithle (82) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Cwynion gan staff a materion disgyblu (83 – 88) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Meddalwedd cyfrifiadurol ar gyfer sillafu a gramadeg a rhyngwynebau (89) | Lefel ganolig i uchel o gydymffurfedd | Lefel ganolig i uchel o gydymffurfedd |
| Tudalennau Mewnrwyd (90 - 95) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Asesu sgiliau Cymraeg staff (96) | Lefel ganolig i uchel o gydymffurfedd | Lefel ganolig i uchel o gydymffurfedd |
| Hyfforddiant i staff mewn meysydd allweddol (97 a 98) | Lefel ganolig i uchel o gydymffurfedd | Lefel ganolig o gydymffurfedd |
| Cyfleoedd i ddysgu Cymraeg (99 – 103) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Llofnodion e-bost, geiriad a logo Cymraeg (104) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Bathodynnau Cymraeg a brandio ar gyfer staff (105) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Asesu sgiliau, hysbysebu, recriwtio a chynefino (106 – 109) | Lefel ganolig o gydymffurfedd | Lefel ganolig o gydymffurfedd |
| Arwyddion a hysbysiadau (113) | Lefel uchel o gydymffurfedd | Lefel uchel o gydymffurfedd |
| Cyhoeddiadau wedi'u recordio (114) | Amherthnasol. | |

Yn y rhan fwyaf o achosion mae meddalwedd Cymraeg ar gael i staff ar draws y sefydliad. Byddwn yn archwilio sicrhau bod y feddalwedd ar gael i bob aelod o staff o 2025/26 ymlaen.

Mae'r holl dudalennau mewnrwyd a nodir yn ein hysbysiad cydymffurfio ar gael yn Gymraeg. Pan fydd tudalen newydd yn cael ei chynhyrchu a'i chyhoeddi fe'i gwneir yn Gymraeg ar yr un pryd â'r dudalen Saesneg. Cynhelir unrhyw adolygiadau a diweddariadau yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

Mae cydymffurfedd PCGC ar gyfer cofnodi sgiliau'r Gymraeg ar hyn o bryd yn 96%, cynnydd o 1% ers 2023/24. Rydym yn cydnabod bod angen i ni ddod o hyd i ateb i alluogi hyfforddeion ar y rhaglen Un Cyflogwr Arweiniol i allu cael mynediad at ESR o liniaduron a dyfeisiau clyfar er mwyn gallu diweddaru eu sgiliau ar ESR. Byddwn yn ymchwilio i hyn ymhellach yn ystod 2025/26.

Rydym wedi datblygu sawl modiwl hyfforddi yn y Gymraeg. Mae'r holl hyfforddiant statudol a gorfodol ar ESR ar gael yn y Gymraeg, ac mae'r rhain hefyd yn cynnwys delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch. Caiff ansawdd cyrsiau ei graffu a'i brofi i sicrhau eu bod yn gwbl weithredol cyn eu cyhoeddi neu eu lansio. Rydym yn annog deialog agored ar gyfer adborth adeiladol er mwyn gwneud gwelliant parhaus. Mae ein tîm E-Ateb yn cefnogi
holl staff GIG Cymru sydd ag ymholiadau ynghylch eu cyflogaeth a'u hyfforddiant ar ein System Cofnodion Staff Electronig (ESR), ac mae'r gefnogaeth ar y llinell gymorth hon ar gael yn y Gymraeg.

Yn 2024/25, derbyniodd 284 o aelodau staff hyfforddiant sefydlu, ac o fewn yr hyfforddiant hwnnw mae gwybodaeth benodol am y Gymraeg a'u rhwymedigaethau fel gweithwyr i gydymffurfio â'n safonau iaith Gymraeg. Cânt hefyd eu hysbysu a'u cyfeirio at ble y gallant ddod o hyd i gefnogaeth i ddarparu ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym yn cynnig sawl cyfle i gyflwyno'r iaith a'r diwylliant Cymraeg i'n staff fel y nodir yn Safonau 99 i 103. I gefnogi'r darn hwn o waith, gwnaed achos busnes yn y broses gynllunio ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Integredig i allu recriwtio Swyddog Hwyluso'r Iaith Gymraeg, ac mae hyn wedi bod yn llwyddiannus. Mae hyn yn golygu y byddwn yn hysbysebu'r rôl yn ystod hanner cyntaf 2025/26 gyda'r bwriad o lenwi'r swydd wag erbyn mis Medi 2025.

Yn ystod 2025/26 byddwn yn adolygu'r hyfforddiant presennol i reolwyr ar draws y sefydliad ac yn ymgorffori ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg mewn hyfforddiant perthnasol i reolwyr, yn hytrach na chreu modiwlau hyfforddiant ar wahân fel modiwlau annibynnol. Y rhesymeg y tu ôl i hyn yw y dylai'r iaith Gymraeg fod yn rhan annatod o bopeth a wnawn, ac nid rhywbeth y mae angen i ni ei wneud fel ychwanegiad.

**Cyfleoedd i ddysgu Cymraeg:**
Ar hyn o bryd mae gennym ddarparwr i gynnal cyrsiau iaith Gymraeg i'n staff o dan y cynllun a ariennir gan Cymraeg Gwaith. Roedd y cyrsiau a gynhaliwyd yn 2024/25 fel a ganlyn:

| Lefel y Cwrs | Nifer y staff sydd wedi cofrestru ar y cyrsiau Cymraeg Gwaith |
|---|---|
| Lefel Mynediad 1 (dau gwrs) | 32 |
| Lefel Mynediad 2 (un cwrs) | 12 |

Rhaid i'r cyrsiau a ariennir gan y cynllun Cymraeg Gwaith gael nifer gofynnol o staff i gynnal pob un.

I'r aelodau staff hynny nad ydynt yn gweithio ar y dyddiau a'r amseroedd penodol hynny, rydym yn cynnig cyrsiau prif ffrwd ar-lein ond yn talu amdanynt yn uniongyrchol gyda chyflenwr. Dyma oedd nifer y staff oedd yn dysgu Cymraeg ar wahanol lefelau ar gyrsiau prif ffrwd:

| Lefel y Cwrs – Cyrsiau Prif Ffrwd | Nifer y staff sydd wedi cofrestru ar Gyrsiau Prif Ffrwd |
|---|---|
| Lefel 1 Mynediad | 13 |
| Lefel 2 Mynediad | 9 |
| Lefel 1 Sylfaenol | 5 |
| Lefel 2 Sylfaenol | 7 |
| Lefel Uwch | 5 |
| Croeso rhan 1 ar-lein | 9 |
| Cymraeg Gwaith Croeso nôl rhan 2 ar-lein | 5 |

Cynhelir pob cwrs yn ystod oriau gwaith. Mae PCGC yn talu am gost y cyrsiau a’r gwerslyfrau fel y sefydliad sy’n cyflogi. Rydym yn hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu Cymraeg i holl weithwyr PCGC. Rydym hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd eraill ar wahân i'r cyrsiau Dysgu Cymraeg, fel Duolingo a Say Something in Welsh ac yn cyfeirio at adnoddau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol.

Rydym wrthi’n archwilio ffyrdd y gallwn dargedu staff sydd â 0 sgil mewn siarad a deall Cymraeg i ymgymryd â Chwrs Cwrteisi i gyflawni lefel 1 mewn siarad a deall ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg ynghyd â chyrsiau Cymraeg Gwaith a phrif ffrwd i staff ar gyfer 2025/26.

Byddwn hefyd yn cynnal trafodaethau gyda’r Ganolfan Dysgu Cymraeg i gynnal sesiynau i staff sydd â gwybodaeth a phrofiad blaenorol o ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg i feithrin eu hyder ymhellach i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith. Nid oedd cyllid ar gael yn 2024/25, felly byddwn yn cynnal trafodaethau gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg ar gyfer 2025/26.


## Safonau Cadw Cofnodion (115 - 117)

**Safonau Cadw Cofnodion - Cwynion a Phryderon - Safon 115:**
Ni chawsom gŵyn na phryder am ein gwasanaethau yn 2024/25.

Derbyniodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre lythyr yn ddiweddarach yn 2024/25, tua diwedd y flwyddyn ariannol, yn hysbysu Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a'r sefydliadau a letyir ganddynt fod problemau gyda rhai gwefannau.


Fel y soniwyd ar dudalennau 4 a 5 o'r adroddiad hwn, roedd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru eisoes wedi nodi rhai problemau gyda'n tudalennau gwe ym mis Chwefror 2025, ac eir i'r afael â'r problemau a'u datrys yn ystod chwarteri 1 a 2 o flwyddyn ariannol 2025/26. Cynhelir archwiliad pellach yn chwarter 3 y flwyddyn ariannol yn 2025/26.

**Safonau Cadw Cofnodion - Cofnodi Sgiliau Iaith Gymraeg ar ESR - Safon 116:**




Arhosodd ein sgiliau'r Gymraeg yn sefydlog yn 2023/24.

Mae ein sefyllfa o ran sgiliau'r Gymraeg wedi gwella yn 2024/25.



Fe wnaethon ni gydnabod bod angen rhagor o gefnogaeth ar staff ar lefelau 0, 1, 2, 3 a 4 i wella eu hyder a bydd gennym adnoddau ychwanegol i gefnogi hyn yn 2025/26. Byddwn yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i fanteisio ar rai sesiynau meithrin hyder i staff yn 2025/26.

**Safonau Cadw Cofnodion - Hysbysebu swyddi gwag – Safon 117:**

| Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel: | |
|---|---|
| Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol | 2 |
| Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol | 435 |
| Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd | 0 |
| Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol. | 0 |
| Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2022 - 31/03/2023 | 437 |

Cytunodd Uwch Grŵp Arwain Cydwasanaethau GIG Cymru yn unfrydol yn 2020/21 y byddai Cymraeg yn Ddymunol yn cael ei gynnwys fel gofyniad sylfaenol ar gyfer hysbysebu swyddi gwag yn PCGC. Rydym yn sefydliad cynhwysol sy'n croesawu ac yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg.

Mae gennym brotocol a system ar gyfer hysbysebu swyddi gwag yn y Gymraeg.

Rydym hefyd wedi sicrhau bod pob swydd-ddisgrifiad wedi'i gyfieithu er mwyn gallu lanlwytho'r swydd-ddisgrifiad a manyleb y person ar gyfer pob swydd wag yn Gymraeg i system recriwtio TRAC sy'n bwydo i borth Swyddi'r GIG.

Rydym wedi sefydlu panel rheoli swyddi gwag i sicrhau bod y sgiliau Cymraeg wedi'u hystyried yn ddigonol ar gyfer swyddi penodol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaethau Cymraeg pan ddaw swyddi'n wag.

Yn ystod 2024/25, fe wnaethom nodi bod angen i ni greu offeryn asesu i gefnogi rheolwyr recriwtio i benderfynu a oes angen hysbysebu swydd wag fel un sy'n cynnwys y Gymraeg yn Hanfodol, ynghyd â'r lefel o sgil sydd ei hangen, neu a oes angen hysbysebu swydd newydd neu wag fel un sy'n cynnwys y Gymraeg yn Ddymunol, ynghyd â'r lefel o sgil sydd ei hangen. Bydd yr offeryn hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheolwr recriwtio ystyried ein sylfaen cwsmeriaid yn ogystal â sgiliau presennol ar ESR.

Rydym wedi dechrau asesu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer rolau newydd a gwag yn ystod 2024/25 a bydd y gwaith hwn yn parhau fel sy'n ofynnol gan safonau'r Gymraeg a'r canllawiau yn y cod ymarfer.

Mae'r asesiad yn cael ei gynnal ochr yn ochr â gwaith yr Adolygiad o'r Disgrifiadau Swydd yn ôl yr angen ac yn ôl y cytundeb â Llywodraeth Cymru.

Bydd offeryn asesu yn cael ei ddatblygu, ei brofi a'i beilota yn 2025/26 cyn ei gyflwyno'n llawn yn ddiweddarach yn y flwyddyn neu ddechrau 2026/27.

Rydym wedi rhoi'r swyddi canlynol drwy'r offeryn asesu fel prawf cyn lansio'r cynllun peilot:

- Staff y dderbynfa
- Staff trin galwadau ar y prif rifau ffôn a llinellau cymorth
- Rolau cyfathrebu

Rydym yn bwriadu parhau i feithrin gallu mewn meysydd hollbwysig lle mae ymgysylltu a chydgysylltu â chwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaethau, cleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Byddwn yn lansio Strategaeth Iaith Gymraeg sy'n benodol i ofynion PCGC yn 2025/26 er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynyddu ein gallu a'n capasiti i ddarparu ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Gweithrediadau'r Uned Iaith Gymraeg ar gyfer 2024/25

**Gwasanaethau a Datblygiadau Cyfieithu 2024-2025**

Gwelodd blwyddyn ariannol 2024-2025 ddatblygiadau sylweddol i uned gyfieithu PCGC wrth i ni ehangu'r cynnig y mae PCGC yn ei ddarparu i GIG Cymru drwy ymestyn cytundebau lefel gwasanaeth cyfieithu a gynhaliwyd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), Gofal Iechyd Digidol Cymru (DHCW), Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (VUNHST), a WAST, i gynnwys darparu system feddalwedd cyfieithu ganolog.

Mae'r cyrff bellach yn gwneud cyfraniadau ariannol blynyddol tuag at un system feddalwedd cyfieithu, sy'n galluogi rhannu cynnwys a gyfieithwyd yn flaenorol, cronfeydd termau cyfieithu, a chynnwys a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial yn gyfrinachol ar draws cyrff y GIG sydd bellach yn rhan o'n system. Mae hyn yn galluogi pob defnyddiwr i wneud effeithlonrwydd ariannol yn ddyddiol ac yn cyflymu'r prosesau cyfieithu i bob defnyddiwr drwy leihau dyblygu cynnwys yn sylweddol. Mae hefyd yn golygu bod gan GIG Cymru lai o gyfrifon meddalwedd cyfieithu, gan ddileu dyblygu adnoddau caffael, symleiddio a chyflymu'r broses a lleihau gwariant ariannol.

Un o brif fanteision y system yw ei bod yn galluogi cynnwys a gyfieithwyd yn flaenorol i fod ar gael ar unwaith i nifer o gyfieithwyr y GIG. Yn hyn o beth, mae rheolwyr cyfieithu PCGC yn credu bod allbwn gweithredol presennol y system gyfieithu yn galluogi PCGC i gyfieithu ei chynnwys ei hun a chynnwys ei chytundebau lefel gwasanaeth gan ddefnyddio tua phedwar cyfieithydd profiadol llawn amser yn llai nag a fyddai'n bosibl fel arall. Daw hyn ag arbediad ariannol sylweddol i GIG Cymru o dros £150,000 y flwyddyn.

Fe wnaethom hefyd gynnal astudiaeth ddichonoldeb i fesur sut y gellid ymestyn y cynllun peilot cam un ar gyfer 2024 i 2026 i Fyrddau Iechyd, gan roi blaenoriaeth i'r

Byrddau Iechyd hynny nad oes ganddynt systemau cof cyfieithu ar waith a thrwyddedau sydd ar fin dod i ben.

Mae rheolwyr cyfieithu PCGC a Phennaeth Gwasanaethau Iaith a Chydymffurfedd yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr perthnasol cyrff y GIG sy'n defnyddio'r system gyfieithu ac maent yn falch o adrodd bod y profiadau a drosglwyddwyd iddynt hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae'r adborth gan ein partneriaid presennol wedi bod yn gadarnhaol:

"Diolch i'r cytundeb lefel gwasanaeth cyfieithu sydd gennym ar waith gyda PCGC, rydym yn gallu cydweithio â'u cyfieithwyr a chyfieithwyr eraill y GIG a rhannu cynnwys wedi'i gyfieithu â'n gilydd. Rwyf hefyd yn gallu defnyddio'r system i alluogi cyfieithwyr fframwaith ICC i gyfieithu iddi a chynyddu ymhellach ystod a chwmpas y cyfieithiadau sydd gan y cof. Mae wedi profi ei hun i fod yn gost-effeithiol iawn hyd yn hyn, gan nad yn unig y gallaf ailddefnyddio cynnwys a gyfieithwyd yn flaenorol, mae'n eithriadol o gyflym i'w ddefnyddio ac yn galluogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i gwrdd â therfynau amser cyfieithu tynn iawn na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall cyn i ni gael mynediad at y gronfa ddata gyfieithu gynhwysfawr hon."


**David Symons, Cydlynydd Cyfieithu, Iechyd Cyhoeddus Cymru**

"O ran adborth ar Phrase, does gen i ddim llawer i'w ddweud – ond dyna oherwydd ei fod yn system mor dda. Mae'n system hawdd iawn i'w defnyddio a gallaf wneud popeth rwyf eisiau ei wneud. Ac yn amlwg, mae'n ein helpu i arbed llawer o amser bob dydd."

**Seiriol Dafydd, Cyfieithydd, IGDC**


**Nifer y Geiriau a Broseswyd ar Feddalwedd Cyfieithu a gafwyd gan PCGC (Ymadrodd)**
**fesul Cleient y GIG**

Mae'r graff isod yn dangos nifer y geiriau a broseswyd yn ystod 2024-2025 ar gyfer PCGC, ICC, IGDC, YPGF, ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru –



Mae'n bwysig egluro bod cyfanswm y geiriau a brosesir gan PCGC yn cynnwys y gwaith a gyfieithwn ar gyfer PCGC a'r gwaith cyfieithu a ddarparwn o dan gytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer ICC, IGDC, YPGF ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Penododd Iechyd Cyhoeddus Cymru Gydlynydd Cyfieithu mewnol yn ystod y flwyddyn ariannol ac rydym yn disgwyl i'w defnydd annibynnol o'r system gynyddu dros amser, yn ogystal â nifer y geiriau rydym yn eu cyfieithu ar eu cyfer o dan gytundeb lefel gwasanaeth.

Mae'r siart cylch isod yn dangos canran y defnydd gan bob cleient GIG o'r feddalwedd cyfieithu Phrase. Unwaith eto, mae canran PCGC yn cynnwys y gwaith a wnawn ar gyfer y cleientiaid eraill a enwir yn y siart.




**Effeithlonrwydd Gwasanaeth Cyfieithu PCGC**
Mae'r gwasanaeth yn falch o allu adrodd bod dros 99% o'r ceisiadau cyfieithu a dderbyniwyd gennym yn ystod blwyddyn ariannol 2024-2025 wedi'u dychwelyd ar neu cyn y dyddiadau dychwelyd a ofynnwyd gan yr awdur. Yn wir, dychwelwyd cyfran sylweddol o'r gwaith a dderbyniodd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn cyn y dyddiadau dychwelyd y gofynnodd yr awduron amdanynt, yn aml ar yr un diwrnod.
Lle dychwelwyd dogfennau wedi'u cyfieithu ar ôl y dyddiadau dychwelyd gofynnol, gellir priodoli hyn yn bennaf i anghywirdebau yn y testun a ddarparwyd i'r uned gyfieithu, neu destun nad oedd yn glir yn ei ystyr. Yna mae'n rhaid i'r uned gyfieithu gysylltu â'r awduron perthnasol ac aros am eglurhad cyn y gallant ddychwelyd y gwaith a gall hyn achosi oedi sydd yn bennaf allan o reolaeth yr uned gyfieithu. Fodd bynnag, mewn ymgais i wella effeithiolrwydd, mae'r uned gyfieithu wedi cynllunio a dosbarthu cyngor i awduron i'w galluogi i ddilyn yr arferion gorau wrth ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu.

**Hyfforddiant a Gynigir gan Uned Gyfieithu PCGC yn ystod 2024/2025**
Yn ogystal â rheoli staff cyfieithu craidd a chyfieithwyr banc PCGC, mae rheolwyr cyfieithu PCGC wedi datblygu sesiynau hyfforddi cyfieithu un i un rheolaidd, wedi'u teilwra, ar gyfer aelodau unigol o staff PCGC, sydd wedi gweld nifer o'n staff yn llwyddo yn arholiad aelodaeth Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (y Gymdeithas). Gyda'r nod o ledaenu arferion gorau ar draws y GIG yn ehangach, fe wnaethant hefyd gynllunio a threfnu sesiwn gyfieithu bwrpasol gyda Dr Menna Jones, sy'n aelod blaenllaw ac yn archwiliwr cyfieithu'r Gymdeithas. Cynigiwyd y gweithdy hwn i holl staff cyfieithu PCGC a'r cyfieithwyr y mae gennym gytundebau lefel gwasanaeth â nhw. Rydym yn falch o allu adrodd bod yr holl gyfieithwyr y gwnaethom gysylltu â nhw wedi derbyn y cynnig yn eiddgar ac yn ymddangos eu bod wedi elwa o gymryd rhan yn y sesiwn.
"Byddwn i wrth fy modd yn cael sesiwn arall gyda Menna. Roedd yr un blaenorol yn ddefnyddiol iawn."

**Rhys Dilwyn Jenkins, Rheolwr Cyfieithu, IGDC**

## Prosiectau a Gwasanaethau Sefydliadol 2024/25:

**Prosiect Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (GOCC)**
Parhaodd y prosiect hwn i fod yn rhan arwyddocaol o'n gwaith yn ystod 2024/25 ac yn flaenoriaeth weinidogol i ddod â gofal llygaid i gleifion yn agosach at adref. Mae'r Gymraeg wedi bod yn flaenllaw ac yn ganolog i'r prosiect hwn wrth i ni sicrhau bod dogfennau ar gyfer cleifion ar gael yn y Gymraeg a bod ein tîm yn hyrwyddo'r Gymraeg ledled y proffesiwn ym mhob rhan o Gymru.

**Protocol Cwynion a Phryderon**
Adolygwyd Protocol Cwynion a Phryderon PCGC yn ystod 2024/25 ac mae ar gael ar ein gwefan yn y Gymraeg.

Ochr yn ochr â'r Protocol ei hun mae canllawiau i'r holl staff, goruchwylwyr, rheolwyr, penaethiaid gwasanaethau a chyfarwyddwyr ar sut i ddilyn y protocol.

Mae canllawiau ar sut i reoli pryder a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd canllawiau ar sut y bydd pryderon a chwynion am wasanaethau Cymraeg yn cael eu trin a'u hymchwilio'n llawn.

**Hyfforddiant Trin Galwadau yn y Gymraeg i Staff**
Rydym wedi cynnig ychydig o sesiynau hyfforddi wedi'u teilwra i staff ar ymdrin â galwadau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

Wedi'u teilwra'n benodol i ddefnyddio geirfa reolaidd sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth, a phatrymau ymarfer, mae'r sesiynau hyn wedi profi'n ddefnyddiol wrth ymdrin â'r alwad gychwynnol yn y Gymraeg, er bod aelodau staff sy'n siarad Cymraeg mewn timau.

Mae'r gwaith hwn yn parhau ac ar gael i bob tîm yn ein cynllun gwella.




**Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg**
Yn dilyn seminar gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Tachwedd 2023 a gweithdy pellach ym mis Ebrill 2025, fe wnaethom adolygu'r offeryn Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg a oedd gennym o'r blaen a'i ymgorffori'n llawn yn ein gwaith Polisi Newid Sefydliadol. Mae hyn cynnwys darparu ystadegau allweddol ar ddemograffeg y boblogaeth a thynnu sylw at ddogfennau allweddol y dylai awduron ymgynghori â nhw wrth gwblhau asesiad effaith ar y Gymraeg gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Data cyfrifiad o 2021
- Mesur y Gymraeg 2011
- Hysbysiad Cydymffurfedd â Safonau’r Gymraeg ar gyfer YGPF
- Cod Ymarfer Safonau’r Gymraeg
- Strategaeth Cymraeg 2050
- Strategaeth Mwy na Geiriau a
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

Yn ogystal ag ystyried proffil demograffig ein staff ledled Cymru.

Rydym hefyd wedi adolygu'r broses, lle mae'n rhaid i Bennaeth Gwasanaethau'r Gymraeg a Chydymffurfedd weld unrhyw waith Polisi Newid Sefydliadol arfaethedig i gael arweiniad a chyngor cyn ymgynghori.




**Adolygiad o Ddefnydd Mewnol Protocol y Gymraeg a Strategaeth Sgiliau'r Gymraeg PCGC**
Yn ddiweddarach yn ystod 2024/25, fe ddechreuon ni adolygu'r Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg a Strategaeth Sgiliau Gymraeg PCGC.

Bydd y ddwy ddogfen yn mynd trwy gyfnod ymgynghori drwy brosesau perthnasol yn y sefydliad gyda'r bwriad o lansio cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cadarn yn ystod 2025/26.

**Asesiadau Sgiliau'r Gymraeg ar gyfer Swyddi Newydd a Gwag**
Tua diwedd y flwyddyn, dechreuon ni edrych ar offeryn a phroses asesu i reolwyr recriwtio werthuso sgiliau'r Gymraeg ar gyfer swyddi newydd a gwag yn PCGC.

Bydd angen i'r broses allu gweithio ochr yn ochr â phrosesau presennol, a bydd angen i ni sefydlu sut y byddwn yn sicrhau y bydd disgrifiadau swyddi a hysbysebion yn adlewyrchu gofynion sgiliau Cymraeg newydd posibl ac yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen.

Roedd yr offeryn asesu yn y cyfnod cynllunio tua diwedd 2024/25. Bydd y gwaith hwn yn parhau i 2025/26 gyda'r bwriad o dreialu'r offeryn asesu yn hanner cyntaf y flwyddyn, ac yna ei gyflwyno'n llawn ar ôl ei brofi gan ddefnyddwyr erbyn 2026/27.

**Allgymorth ac Ymgysylltu**
Rydym yn ystyried bod allgymorth ac ymgysylltu ag ysgolion, colegau, prifysgolion, Gyrfa Cymru a chymunedau ledled Cymru yn hanfodol bwysig. Mae'n flaenoriaeth i ni godi ymwybyddiaeth o'r gwaith y mae PCGC yn ei wneud i gefnogi sefydliadau'r GIG a chael ein hystyried yn gyflogwr dewisol ag enw da ledled Cymru. Mae Pennaeth Gwasanaethau Iaith a Chydymffurfedd yn arwain y gwaith ymgysylltu â chymunedau Cymraeg eu hiaith, ysgolion cyfrwng Cymraeg, colegau a phrifysgolion.

Yn ystod 2024/25, buom yn gweithio gyda Chaerdydd Dwyieithog / Bilingual Cardiff i gysylltu â 20 o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ardal de-ddwyrain Cymru mewn digwyddiad gyrfaoedd yn Undeb Myfyrwyr Caerdydd ar 18 Mehefin.

Ym mis Hydref 2024, fe wnaethon ni fynychu ffair yrfaoedd i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor, lle gwnaethon ni ymgysylltu â dros 120 o fyfyrwyr yn ystod y dydd.

**Cymorth i Sefydliadau GIG Cymru**

- **Hyfforddiant ar gyfer Gweithredwyr Ffôn BIP Caerdydd a'r Fro**
  Yn ystod haf 2024, cynhaliwyd sesiwn ymgyfarwyddo â'r Gymraeg i staff sy'n gweithio fel gweithredwyr ar brif rif ffôn Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.

  Roedd y sesiwn yn cwmpasu ymwybyddiaeth a chyd-destun y Gymraeg yn ardal Caerdydd a'r Fro yn ogystal â chyfarchion ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol i staff ar y prif rif ffôn allu delio â galwadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Fframwaith Cyfieithwyr a Chyfieithwyr ar y pryd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru**
  Yn ystod chwarter un a chwarter dau 2024/25, fe wnaethom gefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i greu fframwaith cyfieithu a chyfieithu ar y pryd fel y gallai'r sefydliad gael mynediad at wasanaethau cyfieithu o safon ochr yn ochr â'r gwasanaethau cyfieithu a ddarperir gan PCGC trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Fe wnaethon ni gefnogi gyda'r canlynol:
  - Creu'r fanyleb
  - Gwerthuso
  - Dyfarnu contractau a darparu dogfennaeth i gontractwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Cyfweliad a Dethol Cydlynydd Cyfieithu newydd yn ICC**
  Darparodd PCGC gymorth i Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn iddo allu recriwtio ymgeisydd i rôl newydd Cydlynydd Cyfieithu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Mehefin 2024.

## Casgliad

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i welliant parhaus er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau'r iaith Gymraeg. Dangosir hyn gan dwf mewn sgiliau'r Gymraeg yn y sefydliad yn ystod 2024/25 a'n safle cyffredinol o ran cydymffurfedd o'i gymharu â 2023/24.

Rydym yn parhau i weithio i greu diwylliant Cymreig ffyniannus yn y gweithle, gan wneud staff yn ymwybodol o'r Gymraeg a'i phwysigrwydd ym mywyd beunyddiol pobl sy'n byw yng Nghymru. Rydym yn parhau i gynnig cyfleoedd i

ddysgu a meithrin hyder wrth ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle, gan ehangu ar y gwaith hwn ymhellach yn 2025/26.

Edrychwn ymlaen at ddatblygiadau pellach yn ystod 2025/26 fel y gallwn gynnal a gwella'r hyn a nodwyd yn adroddiad eleni.

Os hoffech drafod yr adroddiad hwn neu unrhyw faterion sy'n ymwneud â'n cynnig o’r Gymraeg, cysylltwch â'n Pennaeth Gwasanaethau Iaith a Chydymffurfedd: non.richards@wales.nhs.uk